**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**MESUR SENEDDOL DIWYGIO LLES**

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai darpariaethau Rhan 2 o Fesur Seneddol Diwygio Lles (Pobl Anabl: Hawl i Reoli Darparu Gwasanaethau), fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mawrth 2009, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU."

## Y Cefndir

Gosodwyd y Cynnig uchod gan Jane Hutt, Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog ("RhSau") Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("CCC"). Mae'r memorandwm hwn wedi ei osod o dan RS 26.2. Mae RhS 26 yn rhagnodi bod angen cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn CCC os yw Mesur gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol CCC neu os yw'n dwyn effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

Cyflwynwyd y Mesur Seneddol Diwygio Lles ("y Mesur Seneddol") ar 14 Ionawr 2009. Gellir dod o hyd i'r Mesur Seneddol (fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Mesur Seneddol Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin) yn:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/067/09067.i-iii.html

## Crynodeb o'r Mesur Seneddol a'i Amcanion Polisi

Prif ddiben y Mesur Seneddol yw diwygio ymhellach y systemau lles a budd-daliadau i wella cymorth a chymelliadau i bobl symud o fudd-daliadau i waith, rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl anabl ac annog rhieni i fod yn gyfrifol drwy ei gwneud yn ofynnol i enedigaethau gael eu cofrestru gan y ddau riant ar y cyd.

## Darpariaethau yn y Mesur Seneddol y ceisir cydsyniad iddynt

Mae Rhan 2 o'r Mesur Seneddol yn cynnwys cyfres o bwerau galluogi a fydd yn caniatáu gwneud rheoliadau newydd a fydd yn rhoi hawliau newydd i bobl anabl. Mae'n gwneud darpariaeth eang i alluogi pobl anabl sydd yn 18 oed neu'n hŷn i arfer mwy o ddewis a rheolaeth dros y ffordd y mae 'gwasanaethau perthnasol' (fel y'u diffinnir yn Saesneg yng nghymalau 29(1) a (2)) yn cael eu darparu iddynt neu ar eu cyfer gan 'awdurdod perthnasol').

Mae cymalau 31(1) a (2) yn darparu bod gwasanaeth perthnasol yn wasanaeth a ddarperir i neu er budd person anabl (p'un a yw'n cael ei ddarparu mewn cysylltiad â'i anabledd ai peidio), *ac* y mae a wnelo ag un neu ragor o'r materion a ganlyn, ac nad yw'n wasanaeth a eithrir.

(a) darparu addysg bellach ar gyfer Person Anabl (P);
(b) helpu P i gael addysg bellach neu addysg uwch;
(c) darparu hyfforddiant i P;
(ch) sicrhau bod P yn cael gwaith;
(d) helpu P i aros mewn gwaith;
(dd) helpu P i fyw'n annibynnol neu'n fwy annibynnol yng nghartref P;
(e) galluogi P i oresgyn y pethau sy'n ei rwystro rhag cymryd rhan yn y gymdeithas.

O ran Cymru a Lloegr, mae'r isod yn wasanaethau a eithrir—

(a) gwasanaethau gofal cymunedol fel y'u diffinnir gan adran 56(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd a Gofal yn y Gymuned 1990;
(b) gwasanaethau a ddarperir o dan Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000; ac
(c) gwasanaethau a ddarperir o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 (darparu gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill).

Mae "awdurdod perthnasol" (sef "relevant authority" yng Nghymal 32) yn cynnwys Gweinidogion Cymru; awdurdod lleol o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 1972; person neu gorff yr arferir ei swyddogaethau ar ran y Goron; a chorff sy'n bodloni'r ddau amod a ganlyn, sef ei fod (a) wedi ei sefydlu gan yr Uchelfraint Frenhinol, deddfiad, Gweinidog y Goron neu adran o'r llywodraeth a (b) bod ei refeniw yn dod yn gyfan gwbl neu yn bennaf o bwrs y wlad.

Mae cymal 33(2) yn datgan y caiff yr awdurdod priodol wneud rheoliadau i:

(a) asesu anghenion Person Anabl (P);
(b) paratoi, drwy ymgynghori â P, gynllun sy'n dangos y ffordd y mae'r awdurdod yn bwriadu diwallu'r anghenion hynny
(c) adolygu a diwygio'r cynllun drwy ymgynghori â P gan gymryd unrhyw newidiadau yn anghenion neu ddymuniadau P i ystyriaeth;
(ch)ar gais P, gwneud taliadau i P o ran P sy'n sicrhau bod gwasanaeth cyfatebol yn cael ei ddarparu

Caiff rheoliadau hefyd o dan Gymal 33(3)

(a) pennu pwy sydd neu nad yw i'w drin fel person anabl at unrhyw un neu ragor o ddibenion y rheoliadau
(b) gwneud darpariaeth am yr amgylchiadau pryd y cymerir bod awdurdod perthnasol wedi penderfynu darparu gwasanaeth perthnasol i berson
(c) gwneud darpariaeth sy'n galluogi person anabl i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol asesu gwerth unrhyw wasanaethau perthnasol y mae gan y person hawl iddynt;

(ch)gwneud darpariaeth o ran materion y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol eu hystyried, neu faterion y caiff awdurdod perthnasol eu hystyried, wrth wneud penderfyniad at ddibenion darpariaeth yn y rheoliadau

(d) gwneud darpariaeth o ran camau y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol eu cymryd neu gamau y caiff eu cymryd, cyn neu ar ôl i'r awdurdod perthnasol wneud penderfyniad at ddibenion darpariaeth yn y rheoliadau (gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol adolygu ei benderfyniad)

Caiff rheoliadau hefyd o dan Gymal 33(4) alluogi awdurdodau perthnasol neu ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgelu gwybodaeth at ddibenion a ragnodir yn y rheoliadau

Mae Rhan 2 (Pobl anabl: yr hawl i reoli darpariaeth gwasanaethau) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Faterion 5.8, 5.17, 15.2(c), 15.5 (c) a (d), a 15.6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r graddau y mae ei darpariaethau yn cwmpasu oedolion anabl sy'n dod o fewn y categorïau o bersonau y mae'r Materion hynny yn ymwneud â hwy.

**Manteision defnyddio'r Mesur Seneddol hwn**

Mae'r cyfrifoldeb polisi cyffredinol am gyfraith cyflogaeth a nawdd cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr yn nwylo Llywodraeth y DU ar hyn o bryd (mae'r Adran Waith a Phensiynau yn talu pob budd-dal nawdd cymdeithasol cyffredinol sy'n gysylltiedig ag anabledd ar draws y DU ac mae'n darparu gwasanaeth cyngor anabledd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau canolfan byd gwaith.) Priodol felly yw ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Mesur Seneddol ar lefel y DU. Er hynny, mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl sylfaenol wrth ddarparu nifer o'r gwasanaethau perthnasol.

Barn Llywodraeth y Cynulliad yw ei briod yn briodol i ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Mesur hwn o eiddo Senedd y DU sydd wedi rhoi cyfle i Lywodraeth y Cynulliad ystyried darpariaeth gwasanaethau i bobl anabl yng nghyd-destun yr agenda Diwygio Lles ehangach.

Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron, a chyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

**Goblygiadau Ariannol**

Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, deddfwriaeth neu ganllawiau dilynol sy'n codi o benderfyniad yn y dyfodol i arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau perthnasol yn ddarostyngedig i ystyriaeth lawn o fforddiadwyedd ac i Arfarniad Effaith Rheoleiddiol a fyddai'n cynnwys dadansoddiad o'r manteision ac anfanteision o ran cost.

JANE HUTT
Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
xxx 2009